# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 11 MEHEFIN 2018

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2018 – 2019

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Elfed Williams yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2018 – 2019

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Sïon Jones a Rheinallt Puw

Amlygwyd pryder ynglŷn â phresenoldeb Aelodau rhai o'r grwpiau gwleidyddol o ganlyniad i newid diweddar yn y balans gwleidyddol. Awgrymwyd cyfeirio'r sylwadau at y Swyddog Monitro.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 o Fawrth 2018 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 13.03.2018

**8. CAIS I NEWID DIWRNOD MARCHNAD PORTHMADOG**

Amlygodd y Cyfreithiwr nad oedd hawl cyfansoddiadol gan y Pwyllgor Trwyddedu i wneud penderfyniad ar y mater ac mai rôl y Cabinet oedd hynny. Roedd yr Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o'r farn bod angen tynnu sylw'r Aelodau at y mater oherwydd eu cylch gorchwyl ac mai priodol fyddai cael cynnwys eu sylwadau mewn adroddiad i'r Cabinet.

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd mewn ymateb i gais gan un o gynrychiolwyr marchnad Porthmadog i newid diwrnod y farchnad o ddydd Gwener i ddydd Iau Eglurwyd bod ymgynghoriad wedi ei gynnal a bod canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wedi ei cynnwys yn yr adroddiad ar ddull rhesymau o blaid ac yn erbyn y newid.

Tynnwyd sylw at e-byst a dderbyniwyd, ers cyhoeddi'r adroddiad, lle'r oedd yr Aelod Lleol yn datgan ei fod wedi trafod y sefyllfa gyda'r masnachwyr a bod y mwyafrif helaeth ohonynt yn erbyn newid diwrnod.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfanswm lleoliad ar gyfer masnachwyr ym Mhorthmadog, nodwyd bod y lleoliad yn gyfyng ac felly hyd at 12 lleoliad sydd yn gyffyrddus. Gyda sylw bod hyd at 18 o fasnachwyr wedi ymateb i'r ymgynghoriad, awgrymwyd bod masnachwyr nad oedd yn mynychu marchnad Porthmadog wedi datgan sylw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thal sefydlog dyddiol neu flynyddol amlygwyd bod masnachwyr yn arwyddo i gytundeb blynyddol (gyda rhai eithriadau posib). Ategwyd bod y gost yn amrywio o ran maint y stondin gyda masnachwyr achlysurol yn talu ychydig mwy oherwydd nad oeddynt yn fasnachwyr rheolaidd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Siomedig mai un masnachwr oedd wedi gwneud cais
- Byddai symud i ddydd Iau yn cael effaith andwyol ar ddiwrnod marchnad Bermo
- Amlwg bod rhan fwyaf o'r masnachwyr eisiau cadw'r dyddiad fel y mae

Cynigiwyd ac eiliwyd i argymell i'r Cabinet gadw dyddiad marchnad Porthmadog i ddydd Gwener.

Diolchodd yr Aelodau am y cyfle i gael rhoi eu sylwadau ar y mater.

**9. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cynnig i godi ffioedd, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwyd

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol wedi penderfynu, mewn cyfarfod a gynhaliwyd 24.6.13, bod yn rhaid i'r ffioedd gael eu hadolygu i adennill y costau yn llawn. Nodwyd yn yr adroddiad bod y ffioedd tacsi wedi cynyddu 25% yn 2013 a 19.78% a 10.78% yn 2015 er mwyn adennill y costau'n llawn. Ni chynyddwyd y ffioedd yn 2016/17 nac yn 2017/18.

Cyfeiriwyd at effaith newidiadau mewn deddfwriaethau diweddar ar brosesau trwyddedu sydd wedi creu cynnydd mewn gwaith prosesu trwyddedau. Cyfeiriwyd hefyd at yr asesiad ariannol a wnaed o'r ffioedd arfaethedig gan Adran y

Trysorydd.

Amlinellwyd y costau cyfredol a'r costau arfaethedig oedd yn cynnwys cost gyrru llythyrau atgoffa adnewyddu a'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm wrth gynghori a chyfathrebu cyn ac yn ystod proses cyflwyno cais. Eglurwyd y byddai angen cynyddu'r ffioedd ar gyfartaledd o 28% er mwyn adennill y costau yn llawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod llawer o waith wedi ei wneud i gyfarch a gwarchod y diwydiant yn y gorffennol
- Angen ystyried sefydlu darpariaeth talu drwy gredyd uniongyrchol misol yn hytrach na un taliad blynyddol llawn
- Bod angen i'r diwydiant gyflwyno barn yn ffurfiol yn ystod yr ymgynghoriad
- Bod cais am drwydded tair blynedd yn rhatach yn y pendraw na thrwydded blwyddyn a bod yr arbediad yn sylweddol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ynglŷn â chysoni ffioedd, amlygwyd bod rhan fwyaf o awdurdodau wedi gweld cynnydd mewn costau ers cyflwyno trwydded 3 blynedd. Ategwyd bod yr asesiad ariannol wedi ei wneud gyda mewnbwn Adran y Trysorydd oedd yn herio yr angen i gynyddu cost trwydded 3 blynedd. Nodwyd, bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail nad oedd llawer mwy o wahaniaeth costau rhwng gweinyddu trwydded 3 blynedd a thrwydded blwyddyn yn dilyn y gwaith cychwynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag uchafu materion gorfodaeth amlygwyd nad oedd modd defnyddio arian o'r costau i wneud hyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i godi'r ffioedd i'r lefel a argymhellir, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.00 y.b.

**CADEIRYDD**